Matrics Rhestr Fer WCAT

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r matrics rhestr fer a ddefnyddir i asesu ceisiadau recriwtio i raglen Llwybr Academaidd Clinigol Cymru (WCAT). Cyn gwneud cais, dylai ymgeiswyr ddarllen y fanyleb person yn ofalus a sicrhau eu bod wedi darllen a deall yr wybodaeth sydd ar gael am raglen WCAT, gan gynnwys y gofynion cymhwystra a'r broses ymgeisio.

Canllaw i sgorio ceisiadau

Bydd y panel yn cael yr elfennau canlynol o'ch cais:

- Rhif Adnabod y Cais
- Cais (gyda'r enw wedi'i olygu allan)
- Curriculum Vitae (enghraifft isod)
- Gwybodaeth Ategol
    - Cyflawniadau Academaidd Blaenorol (i'w marcio allan o 10)
    - Datganiad Personol (i'w farcio allan o 10)

Gofynnir hefyd i'r Panel roi Sgôr Gyffredinol (allan o 10), ar sail eu hargraff gyffredinol o addasrwydd ymgeisydd ar gyfer WCAT, gan ystyried ei brofiad, cam ei yrfa ac ansawdd y cais.

Cyfanswm y sgôr sydd ar gael = 30.

Mae pob maes arall yn y ffurflen gais wedi'i guddio rhag y panel.

Cynllun Sgorio (0–10)

10	Eithriadol. Yn bodloni'r holl feini prawf asesu yn gryf iawn ac i'r safon uchaf.
9	Rhagorol. Yn bodloni'r holl feini prawf asesu yn gryf iawn.
8	Ardderchog. Yn bodloni'r holl feini prawf asesu yn gryf.
7	Da iawn. Yn bodloni'r meini prawf asesu yn dda, gyda mân wendidau neu gyfyngiadau.
6	Da. Yn bodloni'r meini prawf asesu, ond gyda gwendidau neu gyfyngiadau amlwg.
5	Digonol. Yn bodloni'r meini prawf asesu, ond gyda gwendidau neu gyfyngiadau sylweddol.
4	Gwan. Yn bodloni'r meini prawf asesu'n wael, gyda gwendidau neu gyfyngiadau mawr.
3	Gwael. Yn bodloni'r meini prawf asesu ar lefel sylfaenol yn unig, gyda gwendidau neu gyfyngiadau mawr.
2	Anfoddhaol. Nid yw'n bodloni un neu ragor o'r meini prawf asesu.
1	Gwael iawn. Nid yw'n bodloni'r meini prawf asesu.

Curriculum Vitae (CV)

Dim ond gwybodaeth CV a gyflwynir drwy'r adran berthnasol o ffurflen gais Oriel y bydd AaGIC yn ei derbyn.

Nid yw'r enghraifft isod yn atgynhyrchu ffurflen Oriel. Fe'i darperir fel canllaw i'r wybodaeth y bydd angen i chi ei chynnwys ac i'r ffordd y dylid ei strwythuro.

Addysg a Hyfforddiant

Rhowch fanylion unrhyw gymwysterau meddygol ôl-raddedig/graddau eraill (e.e. MD, PhD, MCEM, MRCP ac ati). Nodwch statws eich arholiad, e.e. MCEM (A), MRCP (rhan 1). Ar gyfer MD, nodwch a yw hwn yn gysylltiedig â'ch cymhwyster meddygol sylfaenol neu'n ganlyniad i draethawd ymchwil annibynnol. Cynhwyswch yma unrhyw gymwysterau perthnasol a restrir fel rhai dymunol yn y fanyleb person. Cwblhewch y tabl isod:

Pwnc a Chymhwyster	Man Astudio	Gradd / Canlyniad	Blwyddyn

Ymchwil/Archwilio/Gwella Ansawdd

Gofynnir i ymgeiswyr ddisgrifio hyd at dri gweithgaredd ymchwil allweddol y maent yn eu hystyried yn fwyaf arwyddocaol. Gall hyn gynnwys rolau neu raglenni ymchwil ffurfiol (er enghraifft, Cymrodoriaeth Glinigol Academaidd neu brosiect gradd Meistr), yn ogystal â gweithgarwch ymchwil llai ffurfiol a gyflawnwyd ochr yn ochr â hyfforddiant clinigol.
Gall enghreifftiau gynnwys archwiliadau clinigol, gwerthusiadau gwasanaeth, gwaith dichonoldeb, neu gymryd rhan mewn astudiaethau ymchwil clinigol neu drosiadol. Ar gyfer pob gweithgaredd, dylai ymgeiswyr ddisgrifio'n glir lefel eu cyfraniad a'u cyfrifoldeb, megis a oeddent wedi arwain y gwaith, wedi cyfrannu fel rhan o dîm ymchwil ehangach, neu wedi ymgymryd â'r gweithgaredd i ddatblygu sgiliau neu fethodolegau ymchwil penodol.

Teitl y swydd ymchwil neu'r prosiect	Enw'r Sefydliad	Dyddiadau	Disgrifiad byr o'ch cyfrifoldebau a'ch cyfraniadau yn y rôl hon (uchafswm o 50 gair)

Allbynnau ac Effaith Ymchwil

Dylai ymgeiswyr restru hyd at bum allbwn ymchwil y maent yn eu hystyried yn fwyaf arwyddocaol. Ar gyfer pob allbwn, dylai ymgeiswyr ddisgrifio eu rôl yn y gwaith ac egluro pam mae'r allbwn yn bwysig neu'n cael effaith. Rhaid i ymgeiswyr nodi'n glir y math o allbwn, gan ddewis o'r categorïau isod:

I. Crynodebau.
II. Trafodion cynadleddau
III. Cyflwyniadau
IV. Patentau
V. Meddalwedd neu offer digidol
VI. Allbynnau eraill (disgrifiwch)

Gall enghreifftiau o effaith gynnwys dylanwad ar ymarfer clinigol, polisi, methodoleg, gofal cleifion, addysg neu ymchwil bellach. Anogir ymgeiswyr i ystyried egwyddorion Datganiad San Francisco ar Asesu Ymchwil (DORA) wrth ddewis a disgrifio eu hallbynnau.

Teitl	Math o Allbwn	PMID neu DOI cyhoeddiadau a adolygwyd gan gymheiriaid (os yw'n berthnasol)	Disgrifiad byr o'r allbwn, eich rôl benodol a'i effaith (uchafswm o 50 gair).

Cyhoeddiadau

Wrth roi manylion cyhoeddiadau, dylai ymgeiswyr ddefnyddio blaenlythrennau yn unig ar gyfer enwau cyntaf yr holl awduron a nodi'n glir eu safle yn y rhestr awduron drwy gyfeirio atynt eu hunain fel YMGEISYDD.

Dylid defnyddio fformat cyfeirio cyson a chydnabyddedig. Fel isafswm, dylai pob cyfeirnod gynnwys: teitl y cyhoeddiad; rhestr lawn o'r awduron (yn y drefn gyhoeddedig); teitl y cyfnodolyn neu drafodion y gynhadledd; dyddiad cyhoeddi; rhif y gyfrol a'r rhifyn (lle bo'n berthnasol); rhifau'r tudalennau; ac unrhyw DOI, URL neu ddynodwr unigryw perthnasol arall.
Rhaid i bob cyhoeddiad a adolygwyd gan gymheiriaid gynnwys PMID neu DOI. Dylai ymgeiswyr hefyd wahaniaethu'n glir rhwng mathau o allbynnau (er enghraifft: erthyglau cyfnodolion, papurau cynadleddau, penodau llyfrau, llyfrau, meddalwedd neu adroddiadau technegol).
Gellir ychwanegu hyd at 10 cyhoeddiad.

Teitl y Cyhoeddiad	Rhestr lawn o'r awduron (yn y drefn gyhoeddedig)	Teitl y cyfnodolyn neu drafodion y gynhadledd	Manylion y Cyhoeddiad (dyddiad, cyfrol, rhifyn, tudalennau)	DOI/URL/Dynodwr

Gwobrau, Anrhydeddau, Cymrodoriaethau neu Gyllid Grant
Rhowch fanylion unrhyw wobrau, anrhydeddau, cymrodoriaethau neu gyllid grant. Cwblhewch y tabl isod ar gyfer y cwestiwn hwn – gellir gwneud hyd at 10 cofnod.

Enw'r Wobr, Anrhydedd, Gymrodoriaeth neu Gyllid Grant	Dyddiad Cyflawni	Disgrifiad byr neu'r rheswm dros dderbyn y wobr (uchafswm o 50 gair)

Sgiliau Ymchwil
Disgrifiwch unrhyw sgiliau neu dechnegau ymchwil ychwanegol yr hoffech eu trafod ac nad ydynt eisoes wedi'u hamlinellu yn yr adrannau uchod.

Aelodaeth Broffesiynol
Rhestrwch fel y bo'n briodol